

Ian Bancroft
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Neuadd y Dref
Wreccsam
LL11 1AY

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: 3186A2022

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Annwyl Ian

Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth ein Cynllun Archwilio nodi 'goblygiadau o ran Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)' fel un mewn cyfres o adolygiadau sicrwydd a asesiadau risg mewn blwyddyn.

Gwnaethom gynnal asesiad o gynnydd y Cyngor wrth ymateb i ofynion allweddol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) rhwng Ebrill a Awst 2022. Casglwyd ein tystiolaeth drwy adolygu dogfennau a chynnal cyfweiliadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio'r canfyddiadau perthnasol o'n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Roedd ein gwaith yn edrych ar y trefniadau yr oedd y Cyngor yn eu rhoi ar waith wrth ymateb i'r Ddeddf. Nid asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn oedd y gwaith.

Yr hyn y daethom o hyd iddo

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull gweithredu tri cham ar gyfer ei hunanasesiad blynyddol o berfformiad a'i nod yw cyflwyno ei ganfyddiadau mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2022. Nid yw'r Cyngor wedi cadarnhau eto eu cynlluniau ar gyfer cwblhau'r asesiad perfformiad panel allanol gofynnol

- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau Cymru gwblhau hunanasesiad blynyddol o'u perfformiad. Mae hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i strwythuro o gwmpas naw thema a gafodd eu llywio gan ganllawiau statudol y Ddeddf:
 - Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol
 - Cynllunio Corfforaethol
 - Cynllunio Ariannol
 - Cynllunio'r gweithlu
 - Caffael
 - Asedau
 - Rheoli Risg
 - Rheoli perfformiad
 - Canlyniadau perfformiad
- Mae proses y Cyngor ar gyfer hunanasesu yn cynnwys tri cham:
 - Cam 1 yw'r 'adolygiad hunanasesiad cychwynnol' a gwblhawyd gan swyddogion rhwng mis Mai a mis Awst 2022. Mae'r Cyngor wedi creu templedi ar gyfer pob thema sy'n cyfeirio at linellau ymholiad a ffynonellau tystiolaeth a awgrymir a ddarperir yng nghanllawiau statudol cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Mae'r templedi gorffenedig yn cynrychioli'r dystiolaeth gefndirol i lywio ei gasgliadau cyffredinol o'i hunanasesiad.
 - Cam 2 yw'r elfen 'her' o broses hunanasesu'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn mynd â'r prif negeseuon a'r casgliadau i banel her o brif swyddogion ac aelodau'r Cyngor ym mis Medi 2022. Bydd y Cyngor yn cynnal gweithdy i bob aelod ym mis Medi 2022 i gyflwyno cefndir y gofyniad hunanasesu ac egluro proses y Cyngor, ynghyd â'i negeseuon a'i gasgliadau allweddol. Mae'r Cyngor yn bwriadu mynd â'i adroddiad hunan-asesiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu ym mis Tachwedd, a'r Bwrdd Gweithredol ym mis Rhagfyr 2022.
 - Cam 3 yw elfen 'Cymeradwyo a Chyhoeddi' proses hunanasesu'r Cyngor. Bydd swyddogion y Cyngor yn cyflwyno adroddiadau terfynol i'w Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2022 ac i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2022.

- Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal asesiad perfformiad panel allanol unwaith yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin yn olynol. Mae Cynllun Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y Cyngor yn cadarnhau y bydd yn rhoi gwybod am yr asesiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn caniatáu iddo wneud argymhellion. Dywedodd y Cyngor wrthym nad yw wedi cadarnhau ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad y panel eto. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn nodi'r angen i ddatblygu dogfen Cylch Gorchwyl amlinellol ac i ystyried cyfansoddiad y panel. Mae'r Cyngor yn disgwyl canllaw a thempledi ychwanegol gan CLILC i ategu'r broses hon.

Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Cyfranogiad a'i Gynllun Deisebau ym mis Mawrth 2022

- Cyhoeddodd y Cyngor ddogfen ymgynghori ar ei wefan am chwe wythnos ym mis Ionawr-Chwefror 2022 yn gofyn am farn y cyhoedd ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Roedd y gyfradd ymateb gyhoeddus yn isel (55). Roedd adborth clir i wella'r wybodaeth ar y wefan am y broses ddemocrataidd a sut y gallai'r cyhoedd ddod yn rhan o benderfyniadau'r Cyngor. Mewn ymateb i'r ddau faes adborth hyn, gwnaeth y Cyngor gynhyrchu dudalen we fanwl ar gyfranogiad gan y cyhoedd..
- Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Strategaeth Cyfranogiad a'i Gynllun Deisebau. Mae'r Strategaeth Cyfranogi yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd a sut y gall aelodau'r cyhoedd ymgysylltu â phwyllgorau'r Cyngor. Mae'r Cynllun Deisebau yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn trin ac yn ymateb i unrhyw ddeisebau gan y cyhoedd (gan gynnwys deisebau electronig). Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo'r ddwy ddogfen ym mis Mawrth 2022 ac maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi penodi pedwar aelod lleyg ac wyth aelod etholedig i'w Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd ac mae ganddo gynlluniau i greu Rhaglen Ddatblygu er mwyn meithrin gwybodaeth aelodau

- Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfansoddiad y Pwyllgor newydd yn Hydref 2021. Dan y trefniadau newydd mae gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ddeuddeg aelod, sy'n cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg.
- Penododd y Cyngor Llawn ym mis Mai 2022 dri aelod lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r aelod lleyg a benodwyd yn 2012 yn parhau yn ei rôl.

- Mae'r Cyngor wedi diweddarau'r Cylch Gwaith ar gyfer ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgor mewn perthynas â'r Ddeddf.
- Cynhaliodd y Cyngor sesiwn sefydlu ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022 i esbonio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn datblygu Rhaglen Ddatblygu ar gyfer ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gaiff ei hystyried gan y Pwyllgor yn yr hydref. Bydd y Rhaglen Ddatblygu yn cynnwys sesiynau 30 munud cyn pob cyfarfod pwyllgor a chaiff y cynnwys ei gytuno gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Bydd unrhyw bwnc lle bydd angen mwy na 30 munud yn cael ei gyflwyno mewn sesiwn wedi'i drefnu ar wahân. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnal gweithdy i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl i ganllawiau diweddaraf CIPFA gael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2022 ('Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol i Awdurdodau Lleol'). Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar atodiadau rhyngweithiol ar 'Hunan-asesu Arfer Da' a 'Gwerthuso Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio'.

Fe wnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CJC) gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Ionawr 2022 a nod y chwe chyngor cyfansoddol yw trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol y CJC i symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff

- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru reoliadau ar 17 Mawrth 2021 i greu pedwar Cydbwyllgor Corfforedig ledled Cymru, a sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (NWCJC) ar 1 Ebrill 2021. Daeth swyddogaethau cychwynol NWCJC i rym ar 30 Mehefin 2022. Mae Cyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cynnal Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB), yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd hon, 'Cydweithio Prif Gynghorau'.
- Y partneriaid sy'n rhan o'r pwyllgor hwn yw:
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir y Fflint
 - Cyngor Gwynedd
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cytunodd y chwe chyngor cyfansoddol y dylai'r NWCJC barhau â'r cyfeiriad a sefydlwyd gan yr NWEAB. Ym mis Ionawr 2022, cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinetau/Byrddau Gweithredol pob un o'r chwe chyngor sy'n aelodau yn argymhell trosglwyddo swyddogaethau'r NWEAB drwy gytundeb dirprwyo i is-bwyllgor grymusol y NWCJC. Mae'r model arfaethedig yn gweld Is-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd yn adrodd i'r NWCJC. Cynigiwyd y newid hwn i gyflawni model llywodraethu symlach ac osgoi unrhyw ddyblygu rhwng y ddau gorff.
- Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn aros am ganllawiau a rheoliadau ar drefniadau craffu, pwerau benthyg a Statws TAW i ddatblygu gwaith y NWCJC ymhellach.

Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar unwaith i ddefnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

- Dywedodd y Cyngor wrthym nad oedd ganddo gynlluniau ar unwaith i ddefnyddio Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol fel y nodir yn y Ddeddf.
- Yn ôl Deddf Gweithredu Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd swyddogion wedi rhoi briff i aelodau etholedig ar y Pŵer ym mis Mawrth 2021, a bu swyddogion yn darparu briff i'r Uwch Dîm Arwain ar 13 Gorffennaf 2022.

Yn gywir

Alan Hughes

Arweinydd Archwilio